# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

# Agenda (223)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Hydref 2006**
**Amser: 2.00pm**


**Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

**Cwestiwn Brys - Janice Gregory (Ogmore) Will the Minister make a statement on job losses in the Ogmore constituency**

**Eitem 2 - Y Datganiad Busnes**


**Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wah?r**


**Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27**

**Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27**

**Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006**

**Eitem 6 - Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru**

**Eitem 7 - Dadl ar ddiogelwch ar y ffyrdd**


**...............................**

## Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

**...............................**

**Cwestiwn Brys - Janice Gregory (Ogmore) Will the Minister make a statement on job losses in the Ogmore constituency**

..............................

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

..............................

## Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wah?

## Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27

### NDM3216 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Medi 2006.

### NDM3217 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ? drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Medi 2006.

Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn. Mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).

**Dogfen Ategol**
Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006

..............................

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27

### NDM3218 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Medi 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*"yn mynegi pryder ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer darparwyr cynorthwywyr tai."*

**NDM3219 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ? drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Medi 2006.

Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn. Mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).

**Dogfen Ategol**
Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006

...............................

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006

**NDM3220 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**NDM3221 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Medi 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006, yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

..............................

## Eitem 6 - Dadl a enwebwyd gan Blaid Cymru

### NDM3222 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Cred y Cynulliad Cenedlaethol na ddylai gwasanaethau ysbytai gael eu hailgyflunio heb ddarpariaeth gymunedol wedi'i chynllunio'n ddigonol.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn credu bod yn rhaid cael gwir ymgynghoriad cyhoeddus cyn i unrhyw ailgyflunio ddigwydd gyda safbwyntiau cymunedau lleol nid yn unig yn cael gwrandawiad ond yn cael eu hystyried.* "

. ..............................

## Eitem 7 - Dadl ar ddiogelwch ar y ffyrdd

### NDM3223 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Llywodraeth Cynulliad Cymru at wella diogelwch ar y ffyrdd i blant; a

2. Yn nodi bod y targed o gael gostyngiad o 50% erbyn 2010 yn nifer y plant a leddir neu a niweidir yn ddifrifol eisoes wedi'i gyflawni.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
Yn unol ?haragraff 5.9 o’r canllawiau ar gynigion a gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal ar wah?b>:

**(1+2+3)**
**(4+5)**
**(6)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ym mhwynt 1, dileu ‘Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr’ a rhoi yn ei le ‘Yn disgwyl cyfraniad gwerthfawr gan’*

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ym mhwynt 1 cynnwys ar ?#145;i blant’:*

*‘ond yn gresynu at y ffaith bod 180 o bobl wedi’u lladd ar ffyrdd Cymru yn 2005 ac yn galw am wneud mwy o waith i leihau nifer y damweiniau’*

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, unwaith y caiff y pwerau i wneud hynny, i gyflwyno deddfwriaeth i:*

*a) sicrhau bod gan bob plentyn sy’n defnyddio cludiant a gyllidir gan AALlau wregys diogelwch;*
*b) sicrhau bod y swyddfa cofnodion troseddol yn cynnal ymchwiliad i gefndir pob un a benodir i gludo plant i’r ysgol;*
*c) sicrhau bod asesiad risg o bob cerbyd yn cael ei gynnal a’i gyhoeddi cyn dyfarnu unrhyw gontract ar gyfer cludiant i’r ysgol.*

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi gyda phryder fod cyfradd y plant a leddir ar ffyrdd Cymru yn dal yn uwch na’r cyfartaledd yn Lloegr, yr Alban a’r DU.*

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi gyda phryder, er bod 50% yn llai o blant wedi marw ar ffyrdd Cymru eleni, nad yw hwn wedi bod yn ostyngiad cyson a bod y niferoedd yn amrywio bob blwyddyn.*

**Gwelliant 6 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod r?wysig camer?cyflymder yn gwella diogelwch ar y ffyrdd, gan gydnabod ar yr un pryd bryderon bod rhai camer?#146;n cael eu gosod er mwyn cynhyrchu refeniw yn unig, yn hytrach nag er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal archwiliad o leoliadau camer?i sicrhau'r gwelliannau gorau posibl i ddiogelwch ar y ffyrdd.*

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 5.30pm**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 4 Hydref 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**